



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Dadansoddiad o fantais gymharol Cymru wrth allforio nwyddau: cyfartaledd 2015 hyd 2017

Methodoleg a chanlyniadau dadansoddiad o fantais gymharol Cymru mewn allforion nwyddau ar gyfer cyfartaledd 2015 hyd 2017.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Chwefror 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Chwefror 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cefndir

Methodoleg

Canlyniadau

Atodiad 1: Model Ricardaidd

Atodiad 2: mantais gymharol a ddatgelwyd wedi'i normaleiddio
(cyfartaledd 2015 i 2017)

Atodiad 3: gwledydd sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad bwloch
gwerth allforio

Atodiad 4: trosolwg o ddadansoddiad o'r bwloch gwerth allforio ar gyfer
marchnadoedd allweddol

Atodiad 5: gwledydd cymharu ar gyfer grwpiau cynnyrch SITC 2

Nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol

Manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn wedi cael eu defnyddio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ddogfen Llywodraeth Cymru, y **Cynllun Gweithredu Allforio** a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2020.

Cefndir

Er mwyn deall cryfderau Cymru yn well o ran allforio nwyddau, mae data masnach wedi cael ei ddadansoddi i sefydlu meysydd o fantais gymharol hy lle mae Cymru'n perfformio'n well na chyfartaledd y byd o ran allforio mewn sectorau penodol. Roedd diffyg data manwl am wasanaethau yng Nghymru yn golygu bod y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar allforio nwyddau Cymru yn unig. Cafodd y dadansoddiad hwn ei wneud drwy ddefnyddio **Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM** a **COMTRADE y Cenhedloedd Unedig (CU)** ar gyfer mewnfurion (a) y byd, gan ddefnyddio cyfartaledd tair blynedd (2015 i 2017) i wrthweithio anwadalrwydd data masnach.

Cafodd perfformiad allforio Cymru ar draws sectorau a marchnadoedd hefyd ei gymharu â gwledydd â mantais gymharol debyg i Gymru.

Mae damcaniaeth economaidd mantais gymharol sy'n seiliedig ar waith David Ricardo yn creu cysylltiadau rhwng cynhyrchiant ac allforion. Mae'n dadlau y dylai gwledydd ganolbwyntio eu hadnoddau ar gynhyrchu nwyddau y mae ganddynt fantais gymharol o ran cost ar eu cyfer. Mae'r ddamcaniaeth yn rhagdybio bod patrymau masnachu rhwng gwledydd yn cael eu llywodraethu gan wahaniaethau mewn cynhyrchiant. Er bod iddi gyfyngiadau, mae'r ddamcaniaeth yn creu sail ar gyfer archwilio data masnach i ddatgelu'r gwahaniaethau hyn mewn cynhyrchiant a'r fantais neu'r anfantais gymharol sydd gan wlad mewn dosbarth penodol o nwyddau. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddamcaniaeth mantais gymharol.

(a) Defnyddir data mewnfurion i fesur y fasnach sy'n llifo rhwng gwledydd, a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddefnyddir i gyfrifo gwerth allforion. Ystyrir bod data mewnfurion yn fwy cywir gan y gall mewnfurion gynhyrchu refeniw tariff, ond yn gyffredinol nid yw allforion yn gwneud hynny. Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio data COMTRADE ar gael o [The World Bank: World Integrated Trade Solution](#).

Methodoleg

Data

Gwnaed y dadansoddiad hwn gan ddefnyddio data a oedd ar gael yn gyhoeddus, [Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEM](#) ar gyfer allforion Cymru a [COMTRADE \(CU\)](#) ar gyfer mewnfurion y byd. Defnyddiwyd cyfartaledd tair blynedd i wrthbwysu anwadalrwydd data masnach. Cafodd y dadansoddiad ei gynnal yn wreiddiol yn 2019, ac roedd yn seiliedig ar y data diweddaraf a oedd ar gael ar y pryd, ac nid yw'n adlewyrchu data mwy diweddar sydd wedi dod ar gael ers hynny. Fodd bynnag, mae'r profion anwadalrwydd a gynhaliwyd ar sail cyfres hirach cyn-2017 yn awgrymu mai bach iawn yw'r newidiadau mewn mantais gymharol dros amser.

Adroddir ar ddata Comtrade y Cenhedloedd Unedig mewn doleri'r Unol Daleithiau (\$), felly defnyddiwyd y cyfraddau cyfnewid canlynol i drosi i £ sterling.

Cyfradd cyfnewid

	2015	2016	2017
£/\$	1.529	1.354	1.289

Ffynhonnell: Banc Lloegr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ymagwedd

Roedd y dadansoddiad yn cynnwys dau gam, y cyntaf i nodi mantais gymharol Cymru (gan ganolbwyntio ar gryfderau allforio) a'r ail i nodi bylchau mewn gwerth allforio a modelu cyfleoedd posibl ar gyfer cynyddu allforion nwyddau Cymru.

Dadansoddiad o'r Fantais Gymharol a Ddatgelwyd

Perfformiad Cymru ar allforio o'i gymharu â chyfartaledd y byd ar gyfer y sector hwnnw i ganfod meysydd allweddol lle y mae Cymru'n dangos cryfder o ran allforio. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio data gwerth masnach ryngwladol.

Lluniwyd y mynegai mantais gymharol (RCA) ar gyfer nwydd i yng Nghymru gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$RCA(i) = \frac{[(\text{Allforion Cymru o nwydd i i'r byd}) / (\text{Allforion Cymru o bob nwydd i'r byd})]}{[(\text{Allforion y Byd o nwydd i i'r byd}) / (\text{Allforion y Byd o bob nwydd i'r byd})]}$$

O'r fan hon, lluniwyd fersiwn wedi'i normaleiddio o RCA (o'r enw NRCA) gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$NRCA(i) = (RCA(i) - 1) / (RCA(i) + 1)$$

Roedd hyn yn golygu bod modd dehongli'r canlyniadau'n rhwydd gan fod gwerth positif yn dangos mantais gymharol tra bod gwerth negyddol yn dangos anfantais gymharol.

Model Bwlch Gwerth Allforio

Perfformiad allforio Cymru ar draws sectorau a marchnadoedd o'i gymharu â

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

pherfformiad gwledydd cymharol penodol i nodi 'bwloch gwerth allforio', hy gwerth ychwanegol allforion y gallai Cymru eu cyflawni, pe baent yn gwella eu perfformiad i gyfateb i'r wlad gymharol yn y sector a'r farchnad honno.

Mae'r model Bwlch Gwerth Allforio yn defnyddio data ar lefel Cymru ac yn ei gysylltu â data masnach ryngwladol a gasglwyd gan **UN COMTRADE**. Mae'r cyfateb hwn yn ei gwneud yn bosibl cymharu allforion Cymru â rhai gwlad sy'n cystadlu ar draws gwahanol sectorau a gwledydd. Lle mae Cymru'n tanberfformio o'i chymharu â gwlad debyg sy'n cystadlu, mae'r model yn meintioli 'bwloch gwerth allforio', hy y gwerth ychwanegol y gellid ei sicrhau pe bai Cymru'n gwella ei perfformiad allforio i gyfateb â pherfformiad y cystadleuydd.

Mae'r model yn cael ei gyfrifo ar draws 66 o sectorau nwyddau a 99 o wledydd gan ddefnyddio cyfartaledd tair blynedd (2015 i 17).

Dewis gwledydd cymharol

Mae'r model yn gofyn am ddetholiad o wledydd cymharol rhyngwladol tebyg i gymharu allforion Cymru yn eu herbyn. Dewiswyd y cymaryddion ar sail bod ganddynt boblogaeth debyg, cymysgedd o allforion a threfniadau masnachu cyfredol gyda gwledydd eraill. Maent hefyd yn cael eu dewis ar sail eu lleoliad daearyddol, mae'r llenyddiaeth economaidd yn cefnogi'n gryf y syniad bod y pellter daearyddol rhwng dwy wlad yn benderfynydd pwysig o ran y swm y maent yn ei fasnachu, felly mae'r holl wledydd a ddewiswyd yn Ewrop.

Oherwydd anawsterau o ran canfod cymaryddion o faint tebyg i Gymru, roedd y rhai a ddewiswyd yn seiliedig yn bennaf ar gymysgedd allforio ac amodau masnachu. Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg, cafodd y bylchau mewn gwerth allforio eu haddasu i gyfrif am wahaniaethau maint rhwng Cymru a'r wlad a ddewiswyd i gymharu.

Dewiswyd y cystadleuydd mwyaf tebyg o grŵp o gymaryddion drwy nodi'r wlad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

sydd â'r NRCA tebycaf i Gymru ar gyfer pob grŵp cynnyrch. Ni chafodd gwledydd cymharol gyda mantais gymharol fwy o lawer na Chymru eu hystyried. Roedd hyn yn un cam i sicrhau bod y bylchau gwerth a nodwyd yn parhau'n realistig ac nad oedd cymhariaeth yn cael ei gwneud â gwledydd â mantais sylweddol dros Gymru.

Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gwblhau gan ddefnyddio'r canlynol fel gwledydd cymharol:

- Norwy
- Y Ffindir
- Denmarc
- Iwerddon
- Yr Alban

Tabl 1: Cynnyrch domestig gros (GDP) y wlad gymharol a'i maint cymharol

Gwlad	GDP, 2017 (£bn)	Gwahaniaeth maint o gymharu â Chymru
Cymru	70.3	1.0
Y Ffindir	176.9	2.5
Norwy (a)	215.4	3.1
Denmarc	217.2	3.1
Yr Alban	156.2	2.2

Ffynhonnell: Eurostat

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

(a) Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2016.

I sicrhau bod y gymhariaeth â phob cystadleuydd a ddewiswyd yn deg, caiff y dewis o gystadleuydd ei sgrinio i gael gwared ar barau cyffiniol (e.e. byddai'n gymhariaeth annheg cymharu allforion Cymru â'r Almaen â'r rhai i Ddenmarc, gan fod Denmarc yn rhannu ffin tir â'r Almaen). Os yw'r cystadleuydd a'r farchnad darged a ddewiswyd yn gyffiniol, caiff y cystadleuydd sy'n ail ddewis gorau ei ddewis yn lle hynny. Mae gwybodaeth am y wlad gystadleuol a ddewiswyd ar gyfer pob grŵp cynnyrch ar gael yn [Atodiad 5](#).

Cyfrifo'r bwlch gwerth allforio

Diffinnir y 'bwlch gwerth allforio' fel y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng allforion Cymru i farchnad benodol ac allforion y cystadleuydd a ddewiswyd i'r un farchnad. Mae 'bylchau gwerth allforio' yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob pâr sector-gwlad. Gellir agregu'r rhain wedyn drwy grynhoi'r gwledydd neu'r sectorau.

Nid yw'r bylchau gwerth a nodwyd gan y model yn edrych yn unig ar faint o werth ychwanegol y mae'r cystadleuwr tebycaf yn ei allforio i farchnad benodol. Mae maint cymharol cyfanswm yr allforion rhwng y cystadleuydd a Chymru hefyd yn cael ei ystyried ac mae'r bwlch gwerth yn cael ei addasu yn unol â hynny. Er enghraifft, y Ffindir yw cystadleuydd tebycaf Cymru ar gyfer Haearn a Dur. Fodd bynnag, mae gan y Ffindir economi fwy na Chymru, felly er bod ganddi NRCA tebyg, dim ond 35% o allforion y Ffindir yw Haearn a Dur. I gyfrif am y gwahaniaeth hwn ym maint y sector, mae'r bwlch gwerth rhwng Cymru a'r Ffindir yn cael ei leihau i'r un ganran. Mae'r bylchau gwerth wedi'u haddasu yn cael eu rhoi yn eu cyd-destun yn y model drwy gyflwyno'r cynnydd yng nghyfanswm allforion sector Cymru sydd ei angen i gau'r bwlch gwerth wedi'i addasu.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ffactorau i'w hystyried a chyfyngiadau

Dylid edrych ar ganlyniadau'r dadansoddiad hwn yng nghyd-destun ffactorau ehangach nad ydynt yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y gwaith hwn. Amlinellir y rhain yn fyr isod.

Twf byd-eang

Mae twf masnach byd-eang wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi'i ysgogi'n rhannol gan ddiffyndollaeth masnach a chynnydd cysylltiedig mewn ansicrwydd byd-eang, sydd wedi'i waethygu ymhellach gan bandemig Covid-19. Mae amcangyfrifon **WTO** yn dangos bod masnach eisoes yn arafu; roedd nifer y nwyddau a fasnechir wedi gostwng 0.1% yn 2019, ac roedd cyflymder yr ehangu ym masnachu gwasanaethau byd-eang wedi arafu i 2% (i lawr o 9% yn 2018). Byddai twf arafach yn y byd yn awgrymu bod llai o alw am allforion yn gyffredinol, ac felly'n lleihau'r potensial i Gymru gyflawni'r perfformiad allforio gwell a amlinellir yn Nhabl 2.

Twf sector

Mae'r llwybrau twf yn y sectorau penodol a nodwyd angen eu hystyried, gan fod sector sy'n profi twf sefydlog neu sy'n dirywio yn dangos y gallai'r posibilïadau ar gyfer tyfu allforion o Gymru yn y sector hwn fod yn gyfyngedig.

Effaith amnewid

Mae Cymru'n wlad lai o'i chymharu â rhai o'i chystadleuwyr, o ran maint y boblogaeth a'r economi. Mae'r cyfyngiadau hyn ar gapasiti Cymru yn golygu y gallai'r cyfle i sicrhau cynnydd mawr mewn allforion mewn cyfnod byr fod yn heriol. O ystyried hyn, mae'n debygol, er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

nodwyd, y bydd rhywfaint o amnewid yn digwydd lle y gall allforwyr symud eu ffocws tuag at sectorau penodol ac oddi wrth sectorau eraill. Wrth wneud hyn, dylid ystyried gwerth ychwanegol y sectorau hyn o ran Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a chyflogaeth er mwyn cynyddu i'r eithaf effaith y cyfleoedd hyn ar yr economi ddomestig.

Amodau masnachu

Bydd gallu allforwyr Cymru i wella eu perfformiad yn dibynnu ar delerau eu cysylltiadau masnachu â gwledydd eraill hy pa rwystrau masnach maent yn eu hwynebu. Mae hwn yn ffactor allweddol i'w ystyried wrth sefydlu gwir botensial y cyfleoedd a nodwyd, yn enwedig yng nghyd-destun ymadael â'r UE.

Elastigedd y galw

Mae dadansoddiad gan **BEIS** yn dangos bod elastigedd y galw yn wahanol ar draws cynnyrch a gwledydd, felly bydd angen ystyried hyn wrth ddehongli gwir werth y cyfleoedd posibl ar gyfer allforio nwyddau o Gymru.

Sefydlogrwydd dros amser

Mae data masnach nwyddau lefel Cymru ar gael o 2007, ond newidiodd CThEM ei fethodoleg yn 2013. Felly, er ein bod yn gwybod bod mantais gymharol Cymru wedi parhau'n sefydlog dros y 5 mlynedd diwethaf (2013 i 2017), nid ydym yn gwybod llawer am ba mor sefydlog ydyw dros gyfnod hwy o amser.

Cafeatau

Er bod y dadansoddiad hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gryfderau allforio Cymru 2015 i 2017, mae nifer o gafeatau sy'n golygu mai dangosol yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

unig yw'r canfyddiadau hyn. Mae'r cafeatau hyn yn cynnwys:

Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar **ystadegau masnach ranbarthol CThEM** sy'n dosrannu masnach nwyddau'r DU i ranbarthau ar sail cyflogaeth – gall y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dull dosrannu olygu bod cryfder Cymru mewn rhai sectorau wedi'i amcangyfrif yn rhy uchel neu'n rhy isel.

Er gwaethaf llunio'r mynegeion yn seiliedig ar gyfartaledd o 3 blynedd i leihau effaith anwadalrwydd masnach, mae'r ffaith bod allforio nwyddau o Gymru yn seiliedig ar nifer cymharol fach o gwmnïau yn golygu y gall fod cysylltiad agos rhwng mantais gymharol Cymru mewn rhai sectorau a gweithgareddau nifer fach o gwmnïau.

Nid yw dadansoddi ond yn rhoi cipolwg ar fantais gymharol Cymru yn y gorffennol – nid yw'n rhoi llawer o syniad o beth fydd mantais gymharol Cymru yn y dyfodol, er bod dadansoddiad pellach yn dangos bod y fantais gymharol yn weddol sefydlog dros amser.

Mae'r dadansoddiad wedi'i ddiffinio ar lefel dosbarthiad SITC2 ar gyfer nwyddau, sef y lefel fwyaf manwl o ddata sydd ar gael ar gyfer allforion nwyddau o Gymru. Er bod hyn yn darparu lefel resymol o ddadgyfuno, mae'r categorïau'n dal i gynnwys amrywiaeth o gynnyrch sydd weithiau'n eithaf gwahanol. Mae hyn yn awgrymu y byddai'n bosibl i'r dadansoddiad ddefnyddio cystadleuydd sy'n eithaf tebyg i Gymru ar lefel y sector ehangach, ond sydd mewn gwirionedd yn cynhyrchu nwyddau o fewn cod y sector hwnnw sy'n eithaf gwahanol i'r rhai y mae busnesau Cymru'n eu cynhyrchu. Er enghraifft, mae '79 - Cyfarpar trafniadaeth arall' yn cynnwys masnachu mewn cerbydau rheilffordd, awyrennau, llongau a chychod ymysg eraill. Felly, mae'n bwysig deal y cynnyrch mae cystadleuydd yn ei fasnachu ym mhob dosbarthiad SITC2.

Ac ystyried y cyfyngiadau hollbwysig hyn, mae'n bwysig nodi mai bwriad y dadansoddiad hwn yw tynnu sylw at gyfleoedd posibl ar gyfer allforio nwyddau o Gymru, y dylid eu hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth arall.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Canlyniadau

Grwpiau cynnyrch gyda mantais gymharol

Yn ôl cam cyntaf y dadansoddiad hwn, roedd gan Gymru fantais gymharol mewn 8 o'r 66 grŵp cynnyrch eang dros gyfnod 2015 i 2017. Mae **Atodiad 2** yn cynnwys rhestr gyflawn o grwpiau cynnyrch a'u sgôr mantais (neu anfantais) gymharol.

Y fantais gymharol fwyaf oedd o fewn 'Darnau arian (ac eithrio aur), nad ydynt yn arian cyfreithiol' a 'chyfarpar trafndiaeth arall'. Ceir rhestr lawn o fantais gymharol Cymru yn Nhabl 2.

Tabl 2: Grwpiau cynnyrch lle roedd gan Gymru fantais gymharol (2015 i 2017)

Grwpiau Cynnyrch	Mantais Gymharol a Ddatgelwyd wedi'i Normaleiddio (cyfartaledd 2015 i 2017) (a)
96 Darnau Arian (ac eithrio darnau arian aur), nad ydynt yn arian cyfreithlon	0.91
79 Cyfarpar trafndiaeth arall	0.86
71 Peiriannau a chyfarpar sy'n cynhyrchu pŵer	0.66
67 Haearn a dur	0.41

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Grwpiau Cynnyrch	Mantais Gymharol a Ddatgelwyd wedi'i Normaleiddio (cyfartaledd 2015 i 2017) (a)
35 Cerrynt trydanol	0.20
02 Cynnyrch Ilaeth ac wyau adar	0.19
58 Plastigion mewn ffurfiau nad ydynt yn rhai sylfaenol	0.15
82 Celfi a rhannau ohonynt; dillad gwely, matresi ac ati	0.12
00 Anifeiliaid byw ac eithrio anifeiliaid adran 03	0.12

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach a Ranbarthol CThEM a comtrade y CU

(a) Defnyddiwyd fersiwn wedi'i normaleiddio o fantais gymharol i helpu i ddehongli, roedd gwerth cadarnhaol yn dangos mantais gymharol, gan dyfu'n gryfach wrth ddynesu at 1. Er mwyn osgoi camadnabod y fantais gymharol, dim ond grwpiau cynnyrch sydd â sgorau NRCA o > 1.10 a gafodd eu hamlygu fel rhai â mantais gymharol. Mae cyfyngiadau a chafeatau'r data yn golygu y dylid dehongli'r canlyniadau hyn gan ddefnyddio gwybodaeth y sector a'r farchnad i archwilio eu hygredd.

Bylchau gwerth allforio

Roedd ail ran y dadansoddiad yn cynnwys cymharu perfformiad allforio nwyddau Cymru ar draws sectorau a marchnadoedd unigol â pherfformiad gwledydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cymharol tebyg ar sail ffactorau yn cynnwys cysylltiadau masnachu, lleoliad daearyddol a chymysgedd allforio. Roedd natur gymharol unigryw Cymru ar draws y ffactorau hyn yn golygu bod dewis gwledydd cymharol addas yn heriol. Fodd bynnag, y gwledydd cymharol addas a nodwyd oedd Norwy, y Ffindir, Denmarc, Iwerddon a'r Alban. O'r grŵp hwn o wledydd cymharol, dewiswyd y cystadleuydd tebycaf. Dyma'r wlad sydd â'r NRCA agosaf at Gymru.

Roedd y dadansoddiad yn cynnwys 66 o sectorau nwyddau a 99(b) o wledydd ac yn golygu bod modd adnabod bylchau mewn gwerth allforio nwyddau ar gyfer Nghymru (hy gwerth ychwanegol allforio nwyddau y gallai gwlad ei sicrhau o fewn sector a marchnad benodol pe baent yn gwella eu perfformiad i gyfateb i berfformiad y wlad sy'n gystadleuydd agosaf iddynt). Roedd hyn yn helpu i ddod o hyd i feysydd a allai gynnig cyfleoedd posibl ar gyfer tyfu allforion nwyddau o Gymru

(b) Cafodd y data ar gyfer 13 o'r gwledydd hyn eu hatal, mae **Atodiad 3** yn cynnwys rhestr gyflawn o'r gwledydd sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad yr oedd data ar gael ar ei gyfer

O gofio'r anhawster o ran canfod gwledydd cymharol addas i Gymru, ychwanegwyd cymhariaeth rhwng maint y sectorau cymharol rhwng y gwledydd cymharol a Chymru at y model, gan addasu'r bwlch i roi amcangyfrif mwy realistig o'r cynnydd yn y gwerth posibl i allforion Cymru, yn seiliedig ar faint cymharol yr economi. Cyfrifwyd hefyd y cynnydd canrannol sydd ei angen ym mherfformiad allforio nwyddau Cymru i gau'r bwlch er mwyn darparu cyd-destun pellach.

Gellir dadansoddi'r cyfleoedd a nodwyd ar gyfer allforio mwy o nwyddau o Gymru yn ôl gwlad neu sector. Dangosir yr 20 bwlch allforio uchaf yn ôl gwerth yn Nhabl 3 isod ac mae **Atodiad 4** yn cynnwys crynodeb o ddadansoddiadau bylchau gwerth allforion ar gyfer marchnadoedd allweddol.

Er enghraifft, dangosodd y dadansoddiad hwn mai'r bwlch mwyaf o ran gwerth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

allforion Cymru oedd Haearn a Dur i'r Iseldiroedd. Wrth gyfateb perfformiad y Ffindir (y wlad gymharol) o ran allforio haearn a dur i'r Iseldiroedd, gallai Cymru fod wedi ychwanegu £280m at ei hallforion. I gyflawni hyn, byddai angen i sector Haearn a Dur Cymru gynyddu ei allforion 35%.

Tabl 3: 20 bwloch allforio a addaswyd uchaf ar gyfer Cymru yn ôl grwp cynnyrch a marchnad, 2015 i 2017(a)

Grwpiau cynnyrch (b)	Marchnad	Y cystadleuydd tebycaf	Bwlch gwerth wedi'i addasu gyda'r cystadleuydd, (£miliynau)	Cynnydd yn allforion sector Cymru er mwyn cau'r bwlch gwerth wedi'i addasu
67 Haearn a dur	Yr Iseldiroedd	Y Ffindir	280.6	35%
77 Peiriannau, cyfarpar a chyfarpar trydanol, n.e.s a rhannau trydanol ohonynt.	Yr Unol Daleithiau	Iwerddon	266.2	37%
79 Cyfarpar trafndiaeth arall	Norwy	Yr Alban	232.9	6%
33 Petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig	Yr Iseldiroedd	Y Ffindir	166.6	12%
77 Peiriannau,	Tsieina	Iwerddon	153.7	21%

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Grwpiau cynnyrch (b)	Marchnad	Y cystadleuydd tebycaf	Bwlch gwerth wedi'i addasu gyda'r cystadleuydd, (£miliynau)	Cynnydd yn allforion sector Cymru er mwyn cau'r bwlch gwerth wedi'i addasu
cyfarpar a chyfarpar trydanol, n.e.s a rhannau trydanol ohonynt.				
67 Haearn a dur	Yr Almaen	Y Ffindir	128.9	16%
33 Petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig	Gwlad Belg	Y Ffindir	116.6	8%
79 Cyfarpar trafnidiaeth arall	Yr Unol Daleithiau	Yr Alban	101.5	3%
33 Petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig	Latfia	Y Ffindir	87.3	6%
79 Cyfarpar trafnidiaeth arall	Saudi Arabia	Yr Alban	75.1	2%
77 Peiriannau, cyfarpar a	Israel	Iwerddon	73.9	10%

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Grwpiau cynnyrch (b)	Marchnad	Y cystadleuydd tebycaf	Bwlch gwerth wedi'i addasu gyda'r cystadleuydd, (£miliynau)	Cynnydd yn allforion sector Cymru er mwyn cau'r bwlch gwerth wedi'i addasu
chyfarpar trydanol, n.e.s a rhannau trydanol ohonynt.				
33 Petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig	Yr Almaen	Y Ffindir	68.0	5%
71 Peiriannau a chyfarpar sy'n cynhyrchu pŵer	Singapôr	Yr Alban	64.7	4%
71 Peiriannau a chyfarpar sy'n cynhyrchu pŵer	India	Yr Alban	62.8	3%
71 Peiriannau a chyfarpar sy'n cynhyrchu pŵer	Malaysia	Yr Alban	62.2	3%
79 Cyfarpar trafnidiaeth arall	India	Yr Alban	62.1	2%
33 Petrolewm, cynhyrchion	Estonia	Y Ffindir	59.7	4%

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Grwpiau cynnyrch (b)	Marchnad	Y cystadleuydd tebycaf	Bwlch gwerth wedi'i addasu gyda'r cystadleuydd, (£miliynau)	Cynnydd yn allforion sector Cymru er mwyn cau'r bwlch gwerth wedi'i addasu
petrolewm a deunyddiau cysylltiedig				
71 Peiriannau a chyfarpar sy'n cynhyrchu pŵer	Canada	Yr Alban	52.4	3%
72 Peiriannau arbennig ar gyfer diwydiannau penodol	Norwy	Yr Alban	51.8	17%
68 Metel anfferrus	Gweriniaeth Gogledd Macedonia	Yr Alban	51.2	15%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Ranbarthol a CThEM a comtrade y CU

(a) Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg, addaswyd y bylchau gwerth allforio i gyfrif am wahaniaethau maint rhwng Cymru a'r wlad gymharol a ddewiswyd.

(b) n.e.s. = heb ei nodi mewn man arall.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-fantais-gymharol-cymru-wrth-allforio-nwyddau-cyfartaledd-2015-hyd-2017-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Atodiad 1: Model Ricardaidd

Mae damcaniaeth economaidd mantais gymharol sy'n seiliedig ar waith David Ricardo yn cynnig dadl o blaid gwledydd sy'n canolbwyntio eu hadnoddau ar gynhyrchu nwyddau y mae ganddynt fantais gymharol o ran cost ar eu cyfer ac yn allforio'r rhain i weddill y byd. Dylent hwythau, yn eu tro, fewnforio'r nwyddau hynny y mae ganddynt anfantais gymharol wrth eu cynhyrchu. Dylai hyn, mewn theori, arwain at gynnydd yng nghyfanswm yr enillion masnach a lles, gan fod y cynhyrchu wedi'i leoli lle mae'n fwyaf effeithlon.

Mae'r Model Ricardaidd yn tybio bod dwy wlad, sy'n cynhyrchu dau fath o nwyddau, gan ddefnyddio un ffactor cynhyrchu, fel arfer llafur. Mae'r model yn fodel cydbwysedd cyffredinol lle mae pob marchnad yn gwbl gystadleuol a'r holl nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu yn unffurf ar draws gwledydd. Mae llafur yn unffurf ac yn gwbl symudol o fewn gwlad ond efallai fod cynhyrchiant yn wahanol ac yn ddisymud ar draws gwledydd. Rhagdybir defnydd llawn o lafur. Gellir cludo nwyddau rhwng gwledydd heb unrhyw gostau cludo.

Mae prif gyfyngiadau'r ddamcaniaeth hon yn cynnwys tybiaethau afrealistig ynghylch costau hy ni roddir cyfrif am yr holl gostau cynhyrchu nad ydynt yn gysylltiedig â llafur, ac ni roddir ystyriaeth i rôl costau trafnidiaeth. Tybir bod y costau'n gyson, ac felly methir rhoi cyfrif am effeithiau o ran darbodion maint wrth i lefelau cynhyrchu gynyddu.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

